

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg yn Sir y Fflint yw Ysgol Gynradd Brychdyn ac mae'n rhan o Gonsortiw m GwE. Mae gan yr ysgol 558 o ddysgwyr ar y gofrestr; mae 15.8 y cant ohonyn nhw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); mae 13 y cant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac mae 6.4 y cant â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL). Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 54 y cant yn fechgyn a 46 y cant yn ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae naw aelod o staff yn y tîm arweinyddiaeth. Mae 21 o athrawon yn Ysgol Gynradd Brychdyn yn ogystal â 24 o gynorthwywyr addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol £14,992 ar gyfer y cyfnod 2018/19.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Defnyddiodd Ysgol Gynradd Brychdyn y grant ychwanegol i nodi blaenoriaethau ar gyfer yr ysgol gyfan ac anghenion dysgu proffesiynol.

Nododd yr ysgol yr angen i gefnogi hyfforddiant a datblygiad athrawon a chynorthwywyr addysgu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar lefel leol a rhanbarthol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu dulliau cwricwlwm newydd a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer yr holl staff addysgu a'r staff cymorth er mwyn ymwreiddio arfer rhagorol yn gysylltiedig â strategaethau craidd yr ysgol (dysgu cydweithredol, Mathematics Mastery, sgiliau darllen uwch-werth ac asesu ar gyfer dysgu).

Nododd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth hefyd yr angen am swyddi arwain ychwanegol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol ac i gyd-gysylltu gweithgareddau dysgu proffesiynol ar draws yr ysgol. Penodwyd i nifer o swyddi megis:

- Arweinydd Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Dilynodd yr holl staff hyfforddiant gweithdy rhifedd a rhannwyd arfer rhagorol ag ysgolion y consortiw m.

- Athro arwain digidol i wella sgiliau staff drwy anghenion a nodwyd drwy archwiliad (gweithdai ar gyfer cronfeydd data, taenlenni, *Scratch*, *Google Classroom*, *Techno camps*, *Minecraft*, *Barefoot* a *Flipgrid*). Yn ogystal â hyn mae dysgwyr wedi'u hyfforddi fel arweinwyr digidol, a chynhaliwyd gweithdai i gefnogi diogelwch ar-lein yr ysgol gyfan, gan gynnwys gweithdai i rieni/gofalwyr. Mae'r ysgol hefyd wedi parhau i gydweithio o fewn ei thriad digidol.
- Athro arwain Cymraeg i wella sgiliau staff addysgu a staff cymorth drwy anghenion a nodwyd drwy archwiliad, gan barhau i gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus y staff a'r dysgwyr mewn perthynas â Chymraeg bob dydd.

Defnyddiodd yr ysgol y cyllid ychwanegol hefyd i roi cyfle i'r staff ddilyn cyrsiau arweinwyr canol a hyfforddiant ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Dilynodd staff yn Ysgol Gynradd Brychdyn gyrsiau datblygiad proffesiynol i gefnogi eu dulliau dysgu ac addysgu drwy weithredu strategaethau craidd yr ysgol.

Mae'r grant ychwanegol hefyd wedi hwyluso cyfle i amrywiaeth o ddarparwyr allanol ddarparu dysgu proffesiynol arbenigol o ansawdd uchel ar gyfer yr holl staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi cysondeb y strategaethau dysgu ac addysgu a ddefnyddir ar draws yr ysgol. Mae dysgwyr a rhieni/gofalwyr wedi cael cyfle i gael hyfforddiant o ansawdd uchel drwy fynd i weithdai ar ôl ysgol a nosweithiau gwybodaeth dan arweiniad arbenigwyr, athrawon arweiniol a dysgwyr.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae datblygiad mentrau ysgol gyfan wedi creu diwylliant colegol sydd wedi hybu ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb a rennir ac ymrwymiad i ddysgu proffesiynol. Mae'r staff wedi gallu nodi yn gynyddol y cysylltiad rhwng eu hanghenion dysgu proffesiynol eu hunain, gan ymgymryd â'r cyfleoedd hyfforddi a ddarperir a gweddnewid eu dulliau arfer yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn wedi cael effaith uniongyrchol ar lwyddiant y dysgu sy'n digwydd yn eu hystafelloedd dosbarth.

Agwedd bwysig yw'r modd y mae'r dysgu proffesiynol sydd wedi ei gynllunio wedi cynnwys yr holl staff. Mae cynorthwywyr addysgu, staff cymorth bugeiliol, goruchwylwyr canol dydd a phrentisiaid wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol o ansawdd uchel, gan gynyddu eu hyder a'u proffil yn amgylchedd yr ysgol.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Trwy ymwreiddio strategaethau craidd yr ysgol, megis dysgu cydweithredol, mae dysgwyr wedi cael cyfle i fod yn arweinwyr ac yn hyfforddwyr yn amgylchedd yr ysgol ac yn eu swyddogaethau cyngor ysgol. Mae cydweithrediad cadarnhaol dysgwyr gallu cymysg o fewn grwpiau bach wedi galluogi'r holl ddysgwyr i rannu'r cyfrifoldeb am fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, creadigol a galluog. Mae dysgwyr wedi'u harfogi â sgiliau gydol oes sy'n eu galluogi i herio eu hunain, bod yn iach, yn hyderus a ffynnu mewn byd cynyddol gymhleth.

Mae ymgysylltiad â rhieni/gofalwyr a dysgwyr wedi effeithio ar y dysgwyr mewn sawl ffordd, gan godi ymwybyddiaeth, cynyddu gwybodaeth, datblygu sgiliau fel sgiliau digidol a diogelwch ar y rhyngwyd, ac mae wedi datblygu sgiliau rhieni/gofalwyr i wella dysgu a lles gartref yn ogystal ag yn amgylchedd yr ysgol.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae Ysgol Gynradd Brychdyn yn cydnabod pwysigrwydd ymwreiddio arfer llwyddiannus, ac adeiladu ar sylfeini cadarn. Mae'r angen i nodi hyfforddiant o ansawdd uchel yn y dyfodol yn hanfodol. Canfu'r ysgol ei bod yn bwysig, er mwyn cyflawni dull cyson a llwyddo i godi safonau ar gyfer pob dysgwr, sicrhau bod yr Uwch Dîm Arwain yn sylweddoli bod darparu dysgu proffesiynol yn flaenoriaeth ar gyfer staff sydd newydd eu penodi. Mae hyn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant llawn ar arferion sydd wedi eu sefydlu ac y ceir cysondeb ysgol gyfan o ddosbarth i ddosbarth ac o flwyddyn i flwyddyn.

Mae ymgysylltiad yr ysgol gyfan yn y broses hunanwerthuso wedi bod yn allweddol i nodi blaenoriaethau ysgol gyfan ac anghenion dysgu proffesiynol. Pan fydd blaenoriaethau ac anghenion wedi'u nodi, caiff y weledigaeth ei rhannu i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn perchnogi eu swyddogaethau ac yn deall sut y maent yn cyfrannu at lwyddiant symud yr ysgol ymlaen. Mae gwneud hyn wedi codi safonau dysgu ar draws yr ysgol.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi pwysigrwydd sicrhau bod yr holl ddysgu proffesiynol a wnaethpwyd wedi dilyn y broses o nodi ar y cyd drwy brosesau hunanasesu yr ysgol, llais y dysgwr a rheoli perfformiad. Mae'r broses hon yn darparu llwybr archwilio a dangosydd gwerth am arian. Mae monitro yn eglur feysydd sydd wedi'u blaenoriaethu yn cyfrannu at broses werthuso ac adolygu, gan ddarparu adroddiadau manwl a dangosyddion yn ymwneud ag effaith datblygiadau ysgol gyfan a bod dysgu proffesiynol wedi digwydd.

Camau nesaf

O ran y camau nesaf, bydd Ysgol Gynradd Brychdyn yn gwerthuso ac yn adolygu effaith y dysgu proffesiynol sydd wedi digwydd ac yn cynhyrchu dadansoddiad cost a budd. Bydd hyn yn darparu'r wybodaeth i nodi a yw'r dysgu proffesiynol wedi cyfrannu at godi safonau ar gyfer yr holl grwpiau o ddysgwyr yng nghymuned yr ysgol e.e. EAL, FSM a dysgwyr agored i niwed.